Agorwyd y cyfnod casglu cocos ar Draeth Lafan a Traeth Melynog yng Ngogledd Cymru ar 1 Medi 2019.

Mae'r trwyddedau i bysgota am gocos o fewn pysgodfeydd Traeth Lafan a Traeth Melynog wedi eu rhannu. Mae'r trwyddedau hyn wedi eu rhannu i nifer cyfyngedig o ymgeiswyr ac maent yn destun amodau amrywiol (gan gynnwys cadw at lwybrau mynediad sydd wedi'u nodi ar fapiau sy'n dod gyda'r drwydded). Caiff y trwyddedau hyn eu rhoi yn sgîl **Gorchymyn Cocos a Chregyn Gleision (Ardal Benodedig)(Cymru) 2011** (dolen allanol - Saesneg yn unig).

Mae'r pysgodfeydd hyn hefyd yn destun (a bydd yn ofynnol i gasglwyr gydymffurfio â hyn) pob gofyniad cyfreithiol arall perthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys is-ddeddfau perthnasol cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a'r Gogledd-orllewin.

Bydd y pysgodfeydd canlynol ar agor:

- **Traeth Lafan** – 363 o dunelli cocos yn unig (dolen allanol - Saesneg yn unig)
- **Traeth Melynog** – 184 o dunelli cocos yn unig (dolen allanol - Saesneg yn unig)
- **Traeth Coch** – 82 o dunelli cocos yn unig (dolen allanol - Saesneg yn unig)

Cliciwch ar y bysgodfa i gael eich cyfeirio at y map ar wefan Canolfan yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu.

Cyn cyrraedd y penderfyniad i agor y pysgodfeydd cocos hyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiadau amgylcheddol o'r Safleoedd Morol Ewropeaidd a'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Daeth yr asesiadau hyn i'r casgliad na fyddai agor y pysgodfeydd hyn yn cael effaith andwyol ar y safleodd hynny a ddiogelir. Hefyd, cafwyd cyngor ynghylch yr agor arfaethedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru o'r dair bysgodfa, a oedd yn cytuno gyda chasgliadau yr asesiadau amgylcheddol.

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi dod i'r casgliad, o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, y dylid agor y pysgodfeydd cocos penodedig ac y dylid rhannu'r trwyddedau ar gyfer tymor casglu 2019/2020.

Bydd y pysgodfeydd cocos ar Draeth Lafan, Traeth Melynog a Traeth Coch yn cau os a phan fydd cyfanswm y ddalfa a ganiateir wedi eu dal o'r bysgodfa.

Gallai yr ardaloedd sydd ar agor i bysgota, o ganlyniad, newid wrth i'r tymor fynd ymlaen.